OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 2676 (Cy.290)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Ynys Môn (Trefniadau Etholiadol) 2012

Gwnaed - - - - 24 Hydref 2012

Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2)

Mae Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru wedi cyflwyno i Weinidogion Cymru, yn unol ag adrannau 57(2) a 58(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**), adroddiad dyddiedig Mai 2012 ar ei adolygiad o'r trefniadau etholiadol o fewn sir Ynys Môn, a'i gynigion ar gyfer eu newid(**2**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu rhoi effaith i'r cynigion hynny heb eu haddasu.

Mae mwy na chwe wythnos wedi mynd heibio ers i'r cynigion hynny gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**3**).

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ynys Môn (Trefniadau Etholiadol) 2012.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym—

(a) at ddibenion trafodion sy'n rhagarweiniol i etholiad cynghorwyr neu sy'n ymwneud ag etholiad o'r fath, drannoeth y diwrnod y gwneir y Gorchymyn;

(b) at bob diben arall, ar ddiwrnod arferol ethol cynghorwyr yn 2013(**4**).

(3) Yn y Gorchymyn hwn mae i "diwrnod arferol ethol cynghorwyr" yr ystyr a roddir i "ordinary day of election for councillors" gan adran 37 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983(**5**).

(**1**) 1972 p.70. Diwygiwyd adran 58 gan adran 40 o Ddeddf yr Heddlu a Llysoedd Ynadon 1994 (p.29); paragraff 11 o Atodlen 15 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p.19); ac adran 168 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (mccc 4).

(**2**) Ym 1996 ac yn unol ag adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, newidiwyd enw'r sir o Sir Fôn i Sir Ynys Môn drwy benderfyniad y cyngor sir a chyda chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 74(6). Diddymwyd is-adran (6) gan Ddeddf Cyfraith Statud (Diddymiadau) 2004 (p.14), Rhan 10 o Atodlen 1.

(**3**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac a freiniwyd bellach yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**4**) *Gweler*O.S 2012/686 (Cy.94) a oedd yn darparu y byddai etholiad cyffredin cynghorwyr i Gyngor Sir Ynys Môn yn cael ei gynnal yn 2013 yn lle 2012 ac y byddai etholiadau cyffredin dilynol yn cael eu cynnal bob pedair blynedd ar ôl 2013.

(**5**) 1983 p.2. Diwygiwyd adran 37 gan adran 18(2) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985 (p.50), adran 17 o Ddeddf Awdurdod Llundain Fwyaf 1999 (p.29) ac adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (p.28).

Adrannau etholiadol sir Ynys Môn

2.—(1) Mae adrannau etholiadol sir Ynys Môn wedi eu diddymu.

(2) Mae'r sir wedi ei rhannu'n un ar ddeg o adrannau etholiadol a phob un ohonynt yn dwyn enw a restrir yng ngholofn 1 y Tabl yn yr Atodlen ac mae pob un o'r adrannau etholiadol hynny wedi ei ffurfio o'r ardaloedd presennol a bennir mewn perthynas â'r adran etholiadol honno yng ngholofn 2 y Tabl.

(3) Y nifer o gynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer pob adran etholiadol yw'r nifer a bennir mewn perthynas â'r adran etholiadol honno yng ngholofn 3 y Tabl yn yr Atodlen.

Dirymu

3. Mae Gorchymyn Bwrdeistref Ynys Môn-Isle of Anglesey (Trefniadau Etholiadol) 1992(**6**) wedi ei ddirymu.

Carl Sargeant
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau,
un o Weinidogion Cymru

24 Hydref 2012

(**6**) O.S. 1992/2923. Daeth y Gorchymyn hwn i rym ar ddiwrnod arferol ethol cynghorwyr ym 1995 a gwnaeth ddarpariaeth ar gyfer y trefniadau etholiadol ar gyfer y prif gyngor newydd a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru)1994. Ym 1998 ni chynigiodd adroddiad y Comisiwn ar adolygu trefniadau etholiadol sir Ynys Môn unrhyw newidiadau i'r trefniadau etholiadol; ac ni wnaed unrhyw orchymyn o dan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gwnaethpwyd rhai newidiadau canlyniadol i adrannau etholiadol yn y sir gan O.S.2009/367(W.37).